



Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Dadansoddiad achos a mater (Sefydliadau busnes,
rheolau a gweithdrefnau)

Adolygwyd ddiwethaf ar 8 Chwefror 2023

Bydd ymgeiswyr yn cael 16 asesiad yn SQE2. I basio SQE2 bydd angen i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn a thrafodaeth o'r ateb yn enghraifft o asesiad dadansoddi achos a mater. Asesiad cyfrifiadurol yw hwn a bydd gan ymgeiswyr 60 munud i gwblhau'r dasg.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesu SQE2.

Noder fod y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu llunio i roi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.

Cwestiwn a phapurau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr

E-bost i'r Ymgeisydd

Oddi wrth: Partner
Anfonwyd: 11 Rhagfyr 202#
At: Ymgeisydd
Pwnc: Nick Dutton ac Alex Hayman

Ddoe bues i'n siarad â chleientiaid newydd, Nick Dutton ac Alex Hayman. Maen nhw yn gyffrous ynglŷn â chynnyrch newydd maen nhw wedi bod yn ei ddatblygu. Eglurwyd mai dyfais yw hon a fydd yn galluogi i geir trydan deithio ymhellach nag ar hyn o bryd cyn y bydd angen ail-wefru. Mae nhw'n bwriadu sefydlu cwmni newydd i ddatblygu a chynhyrchu'r ddyfais. Maen nhw wedi bod yn gweithio yn y diwydiant ceir ers peth amser, ac maen nhw eisoes wedi profi llwyddiant wrth ddatblygu darnau i geir. Byddant yn gweithio â'i gilydd yn y busnes hwn a byddwn ni'n gweithredu ar eu rhan.

Y Cyfarfod Cyntaf a'r Cynnig

Mae gan Nick ac Alex rywfaint o'u harian eu hunain i'w fuddsoddi yn y busnes. Mae Frank Wells, sy'n ddyn busnes profiadol, yn barod i fuddsoddi yn eu prosiect ac mae chwaer Frank, Mary Freeman, hefyd wedi cytuno i gyfrannu peth cyfalaf.

Mae Nick ac Alex yn amcangyfrif y bydd angen £65,000 arnynt fel cyfalaf cychwynnol. Mae gan Nick ac Alex £15,000 rhyngddynt i'w fuddsoddi: byddant yn cyfrannu £7,500 yr un.

Mae cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal ac mae Frank a Mary wedi cytuno i gyfrannu'r £50,000 arall: bydd Frank yn buddsoddi £32,500 a bydd Mary yn buddsoddi £17,500. Cytunwyd hefyd mai enw'r cwmni fydd ElectroEndurance ac mai Nick Dutton fydd Ysgrifennydd y Cwmni.

Ar ôl y cyfarfod anfonodd Frank a Mary lythyr at Nick ac Alex yn crynhoi eu cynnig (**Atodiad 1**) ac amlinelliad o'u cynnig (**Atodiad 2**).

Gwybodaeth Gefndir Bwysig

Fel y gweli di o'r llythyr amgaeedig, mae Frank a Mary wedi datgan yn glir y byddant, am eu bod yn cymryd risg sylweddol, yn disgwyl enillon cynnar ar eu buddsoddiad yn y cwmni. Fodd bynnag, mae Frank a Mary ill dau yn hapus i drafod a negodi eu cynnig cychwynnol.

Mae Nick ac Alex yn sylweddoli na allant fynd ymlaen i ddatblygu a chynhyrchu eu dyfais newydd heb fuddsoddiad gan Frank a Mary. Fodd bynnag, os yw Nick ac Alex mor llwyddiannus ac y maen nhw'n gobeithio, byddent yn hoffi symud y busnes ymlaen eu hunain. Felly maen nhw am wybod pa mor sicr fydd eu safle fel cyfarwyddwyr y cwmni. Maen nhw wedi dweud hefyd y byddai'n well ganddynt weld cyn lleied o ymyrraeth allanol â phosibl yn y cwmni. I'r graddau posibl maen nhw am weld yr elw'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cynnyrch ac i recriwtio gweithwyr arbenigol, ac mi hoffent gael rheolaeth dros benderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r elw.

Mae Nick a Alex wedi dweud eu bod yn disgwyl cytuno â'i gilydd ar benderfyniadau a wneir o fewn y cwmni. Maen nhw'n disgwyl y bydd Frank a Mary hefyd yn cytuno â'i gilydd. Fodd bynnag, maen nhw'n cydnabod na fydd y pedwar ohonynt o reidrwydd yn cytuno â'i gilydd bob amser.

Angen am Gyngor a Dadansoddiad

Hoffai Nick ac Alex gael cyngor ar y cynnig hwn ac awgrymiadau ar gyfer negodi am well cytundeb iddynt eu hunain, **gan ystyried yr hyn a fydd yn dderbyniol i Frank a Mary.**

Hoffwn i ti roi'r cyngor a'r dadansoddiad hwn imi i'w ddefnyddio fel sail i lythyr at y cleientiaid. Wrth roi'r cyngor mae angen cofio nad oes gan Nick ac Alex unrhyw brofiad o ffurfio cwmni, na rhedeg busnes drwy gwmni. Ystyriaeth sylfaenol iawn yn unig sydd ganddynt o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn gyfranddalwyr a chyfarwyddwyr mewn cwmni cyfyngedig preifat.

Fodd bynnag, **hoffent gael esboniadau byr o'r gyfraith berthnasol** lle y bo'n briodol, felly dylet gynnwys y rhain yn dy gyngor a'th ddadansoddiad. **PAID** â chynnwys cyngor am gorffori cwmni, na chynllun gweithdrefnau manwl y bydd o bosibl eu hangen yn y pen draw: cyngor cychwynnol yn unig y gofynnwyd amdano ar hyn o bryd yw. **PAID** â chynnwys cyngor ar drethiant ar hyn o bryd.

Noda dy gyngor a'th ddadansoddiad o'r canlynol

- i. **Os yw'r cwmni yn cael ei strwythuro yn y ffordd a awgrymir yn y cynnig (Atodiad 2) a all Frank a Mary gael gwared ar Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr y cwmni? Pa newidiadau fyddet ti'n eu hargymell i Nick ac Alex geisio eu cyflwyno i gryfhau eu sefyllfa fel cyfarwyddwyr?**
- ii. **Pa gynigion gwahanol i'r rhai a wnaed yn Atodiad 2 y gallai Nick ac Alex eu hystyried, fel ffyrdd o strwythuro'r buddsoddiad sydd i'w wneud gan Frank a Mary? Dylet awgrymu cynigion a fydd o fudd i'n cleientiaid, gan gofio'r hyn yr wyt yn credu fydd yn dderbyniol i Frank a Mary. Yn achos unrhyw awgrymiadau a wnei di, dylet nodi'r manteision a'r anfanteision i Nick ac Alex, ac i Frank a Mary. Bydd hyn yn galluogi Nick ac Alex i ddeall y sefyllfa'n well cyn dechrau negodi.**

Nodyn i Ymgeiswyr:

Dylech dybio nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau Nick ac Alex.
Dylech dybio bod buddiannau Nick ac Alex yn union yr un fath yn hyn o beth, ac na fydd gwrthdaro rhyngddynt yn ddiweddarach. Yn benodol, NI ddylech ystyried unrhyw gyngor cyfreithiol ar wahân y gallai'r naill neu'r llall ddewis ei gymryd yn ddiweddarach.

Rwyf wedi delio â phob mater yn ymwneud â gofal cleientiaid, felly ni fydd angen i chi ystyried y rhain.

ATODIAD 1

The Homestead Falconer's Rise Doncaster DN12 1AD

8 Rhagfyr 202#

Annwyl Nick ac Alex

Roeddem yn meddwl yr hoffech gael cadarnhad ysgrifenedig gennym o'n cynnig i fod yn gysylltiedig â'ch menter busnes newydd. Mae hyn, fel yr ydych wedi egluro, yn golygu datblygu cynnyrch newydd i alluogi ceir trydan i deithio ymhellach nag ar hyn o bryd cyn bod angen ail-wefru. Nid ydych, hyd yma, wedi corffori'r cwmni i ddatblygu a chynhyrchu'r ddyfais, ond rydych wedi nodi y byddwch yn ymgynghori â chyfreithiwr. Byddwn yn awgrymu eich bod yn cael cyngor ar ein cynnig gan eich cyfreithiwr, a'n bod yn cwrdd eto ar ôl hynny.

Mae gan Frank £32,500 i'w fuddsoddi yn y cwmni. Bydd Mary yn buddsoddi £17,500. Ein hawgrym yw y byddwn yn defnyddio'r buddsoddiad hwn i fod yn gyfranddalwyr yn y cwmni, ond nid yw'r un ohonom yn dymuno bod yn gysylltiedig â'r gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd, ac nid ydym am gael ein penodi'n gyfarwyddwyr.

Gan ein bod yn gwneud buddsoddiad mor sylweddol, rhaid inni weld rhywfaint o elw cyn gynted â phosibl. Rydych wedi dweud wrthym nad ydych yn disgwyl i'r cwmni wneud unrhyw elw am y 18 mis cyntaf. Ein hawgrym felly yw eich bod, yn gyfnewid am ein buddsoddiad, yn cyhoeddi rhai blaengyfrannau a rhai cyfranddaliadau cyffredin i bob un ohonom. Ymddengys i ni fod hyn yn ffordd dda i chi gael y cyfalaf sydd ei angen arnoch i ddechrau arni, wrth ganiatáu i ni gael cyfran o'r elw yn gynnar yn oes y cwmni. Yn y Cynnig Strwythur a Buddsoddi yn y Cwmni amgaeedig, rydym wedi cynnwys geiriad yr awgrymwn y gellid ei gynnwys yn erthyglau'r cwmni i nodi'r hawliau sydd ynghlwm wrth y blaengyfrannau dewisol.

Ar ôl i chi gael cyngor cyfreithiol, efallai y byddwch yn teimlo yr hoffech drafod elfennau o'n cynnig, neu pwyntiau sy'n deillio ohono, â ni. Mae pob croeso i chi gysylltu â ni yn y man a byddwn yn hapus i ystyried unrhyw gynigion rhesymol eraill.

Gyda phob dymuniad da

Frank a Mary

ATODIAD 2

Strwythur y Cwmni a Chynnig i Fuddsoddi dyddiedig 8 Rhagfyr 202#

Enw Arfaethedig	ElectroEndurance Limited
Cyfarwyddwyr Arfaethedig	Nick Dutton Alex Hayman
Ysgrifennydd y Cwmni	Nick Dutton
Swyddfa Gofrestredig	75 Hopswood Drive, Doncaster, DN11 7BQ Tel no: 01302 598211
Cyfranddalwyr	<p><u>Frank Wells:</u> 10,000 £1 20% o flaengyfrannau cronnus; a 22,500 £1 o gyfranddaliadau cyffredin</p> <p><u>Mary Freeman:</u> 5,000 £1 20% o flaengyfrannau cronnus; a 12,500 £1 o gyfranddaliadau cyffredin</p> <p><u>Nick Dutton:</u> 7,500 £1 o gyfranddaliadau cyffredin</p> <p><u>Alex Hayman:</u> 7,500 £1 o gyfranddaliadau cyffredin</p>
Erthyglau Cymdeithasu	Atodlen 1 o Reoliadau Cwmniau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008 gydag un gwelliant sy'n cynnwys erthygl ychwanegol sy'n nodi'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r blaendaliadau: Bydd gan ddeiliaid blaendaliadau hawl i gael dididend ffafrinol cronnus sefydlog ar gyfradd o 20% y flwyddyn ar y swm a dalwyd arno. Os bydd y cwmni'n dirwyn i ben mewn unrhyw amgylchiadau, bydd unrhyw gyfalaf dros ben sydd ar gael i'w ddsbarthu i'r cyfranddalwyr yn cael ei ddsbarthu'n gyfartal rhwng yr holl gyfranddalwyr yn gymesur â gwerth enwol cyfanswm eu cyfrandaliadau o bob dosbarth o gyfrandaliadau a ddelir. Bydd gan ddeiliaid y blaendaliadau hawl i gael eu hysbysu o unrhyw gynigion a roddir gerbron aelodau'r cwmni ond ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio ar unrhyw gynigion o'r fath ac ni fyddant yn cyfrif yn y cworwm mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol.
Cytundeb y Cyfranddalwyr	Dim
Contractau Gwasanaeth y Cyfarwyddwyr	Nick Dutton ac Alex Hayman – telerau, gan gynnwys cyflogau, i'w cytuno.

Trafodaeth ar yr ateb

Dadansoddiad Achos a Mater: Pwntiau i'w nodi

Mae'r meini prawf ar gyfer dadansoddiad achos a mater fel a ganlyn:

Sgiliau

1. Canfod ffeithiau perthnasol
2. Rhoi cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn mae'r cleient am ei gyflawni, ac nid o safbwynt cyfreithiol yn unig).
3. Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol.

Cymhwyso'r gyfraith

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir yn unol â sefyllfa'r cleient
5. Cymhwyso'r gyfraith yn gynhwysfawr yn ôl sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion moesegol ac sy'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest a gydag uniondeb.

Mae'r marcio'n cael ei wneud gan gyfreithwyr sydd wedi'u hyfforddi fel aseswyr ac mae eu marcio wedi'i safoni. Mae'n seiliedig ar grebwyll proffesiynol cyffredinol yn hytrach na dull ticio blychau neu restr wirio.

Y man cychwyn ar gyfer y crebwyll proffesiynol cyffredinol hwn yw safon cymhwystra'r asesiad, sef y Cyfreithiwr Diwrnod Cyntaf cymwys yn unig ([Y Safon Trothwy](#)). Mae marcwyr yn hyblyg o ran y dull a ddefnyddir gan yr ymgeisydd.

Mae marcio'n seiliedig ar berfformiad ar bob un o'r meini prawf asesu a ddyfernir ar raddfa o A – F fel a ganlyn:

A: Perfformiad uwch: ymhell uwchlaw gofynion cymhwystra'r asesiad

B: Yn amlwg yn foddhaol: yn amlwg yn cyrraedd gofynion cymhwystra'r asesiad

C: Pàs ymylol: ar y cyfan, dim ond yn cyrraedd gofynion cymhwystra'r asesiad

D: Methiant ymylol: ar y cyfan, dim ond methu â chyrraedd gofynion cymhwystra'r asesiad

E: Yn amlwg yn anfoddhaol: mae'n amlwg nad yw'n cyrraedd gofynion cymhwystra'r asesiad

F: Perfformiad gwael: ymhell islaw gofynion cymhwysedd yr asesiad

I gael rhagor o fanylion am y marcio gweler y [Fanyleb Asesu](#) a'r Polisi Marcio a Chymedroli (i'w gyhoeddi). Mae'r Fanyleb Asesu yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol, a chymhwyso'r gyfraith yn gywir ac yn gynhwysfawr.

Mae pwyntiau cyfreithiol allweddol yn cynnwys y canlynol:

Nid oes angen cyfeiriadau (ee darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 na Rheoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008).

Cael gwared ar gyfarwyddwr/wyr

Mae gan gyfranddalwyr y pŵer i gael gwared ar gyfarwyddwr cwmni drwy benderfyniad cyffredin.

Sut mae cyfranddalwyr yn pasio penderfyniad cyffredin i gael gwared ar gyfarwyddwr, fel y mae'n gymwys i'r senario hwn ac yn enwedig y cydbwysedd grym yn strwythur arfaethedig y cwmni.

Noder: Nid oes angen cynllun gweithdrefn manwl

Cryfhau safle'r cyfarwyddwyr

Gall awgrymiadau gynnwys:

Contract gwasanaeth cyfnod sefydlog hir

Hawliau pleidleisio wedi'u pwysoli ar benderfyniad i gael gwared ar gyfarwyddwr

Cytundeb cyfranddalwyr ar yr amod na fydd Frank a Mary yn cael gwared ar Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr, nac yn penodi rhagor o gyfarwyddwyr

Cynigion ar gyfer strwythuro'r buddsoddiad

Gall awgrymiadau gynnwys:

Benthyca rhan/y cyfan o'r arian buddsoddi

Addasu cydbwysedd y cyfranddaliadau

Addasu'r hawliau sydd ynghlwm wrth y cyfranddaliadau

Byddai ystyried manteision/anfanteision unrhyw awgrymiadau eraill yn cynnwys mabwysiadu'r senario presennol gan gynnwys cydnabod buddiannau'r partïon:

- Maint y buddsoddiad sy'n cael ei gynnig
- Pa mor fuan y disgwylir elw
- Pwysigrwydd incwm/elw ar y cyfalaf
- Parhad cysylltiad y buddsoddwyr yn y cwmni
- Rheoli i ble mae elw'r cwmni'n mynd

Nodyn ar atebion enghreifftiol

Rhoddir dau ateb enghreifftiol (Sampl A a Sampl B). Nid yw'r naill ateb na'r llall yn berffaith nac yn ateb enghreifftiol ac mae pwyntiau eraill y gellid eu gwneud yn y ddau ateb. Ni ddylech gymryd yn ganiataol bod popeth yn yr enghreifftiau yn gywir. Mae A yn ateb cryfach na B ond mae'r ddau yn cyrraedd o leiaf y Safon Trothwy.

SAMPL A (gweler y nodyn ar atebion enghreifftiol ar dudalen 10)

O dan y cynnig buddsoddi presennol, bydd Frank a Mary gyda'i gilydd yn dal 70% o'r cyfranddaliadau pleidleisio yn y cwmni. Er na fydd ganddynt reolaeth lwyr dros y cwmni, mae hyn yn golygu y gallant basio cynigion sy'n gofyn am fwyafrif syml (penderfyniadau cyffredin), ond nid penderfyniadau arbennig lle mae angen 75%. Bydd Frank a Mary hefyd yn dal blaendaliadau, sy'n golygu y byddant bob blwyddyn y bydd difidend ar gael yn cael elw o 20% ar y swm a fuddsoddwyd yn y cyfranddaliadau hyn cyn i unrhyw gyfranddalwyr eraill gael unrhyw elw. Os na fyddant yn cael difidend mewn unrhyw flwyddyn bydd yr hawl yn crynhoi, felly os na fyddant yn cael difidend mewn unrhyw flwyddyn benodol, bydd y swm y dylent fod wedi'i gael yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn nesaf.

1. A all Frank a Mary gael gwared ar Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr?

Fel y nodwyd uchod, o dan y cynnig buddsoddi presennol, byddai gan Frank a Mary gyda'i gilydd 70% o'r pleidleisiau. Gall cyfranddalwyr gael gwared ar gyfarwyddwyr drwy basio penderfyniad cyffredin, sydd angen mwy na 50% o'r pleidleisiau. Byddai cyfarfod cyffredinol a drefnwyd i basio penderfyniad o'r fath gyda Frank a Mary yn bresennol yn gyfystyr â chworwm. Mae pleidleisiau mewn cyfarfod cyffredinol yn cael eu cynnal drwy godi dwylo (1 bleidlais y pen), fel y byddai'r pleidleisiau'n gyfartal pe bai'r pedwar cyfranddalwyr yn bresennol yn y cyfarfod. Fodd bynnag, gan fod Frank a Mary yn berchen ar o leiaf 10% o gyfranddaliadau cyffredin y cwmni'r un, gall y naill neu'r llall fynnu pleidlais bleidleisio ar unrhyw adeg, sy'n golygu y bydd pleidleisio'n digwydd ar sail 1 bleidlais y cyfranddaliad. Mae eu cyfranddaliadau ar y cyd o 70% yn golygu y byddai Frank a Mary yn gallu cael gwared ar Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr, ac y gallent hefyd benodi cyfarwyddwyr newydd i'r bwrdd.

Mae gwahanol ffyrdd o gryfhau safle Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr wedi'u nodi isod:

- i) Ymrwymo i gytundeb cyfranddalwyr na fydd Frank a Mary yn cael gwared ar Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr nac yn penodi cyfarwyddwyr ychwanegol.
- ii) Cynnwys yr hyn a elwir yn gymal 'Bushell v Faith' yn erthyglau'r cwmni. Byddai hyn yn cryfhau hawliau pleidleisio Nick ac Alex os byddai'r cyfranddalwyr yn ceisio cael gwared arnynt fel cyfarwyddwyr.
- iii) Cyflwyno tymor penodol yng nghontractau gwasanaeth Nick ac Alex. Pe bai'r rhain yn cael eu terfynu'n gynnar byddai'n rhaid i'r cwmni dalu iawndal iddynt.

Byddai pob un o'r dulliau hyn, neu gyfuniad ohonynt, yn ei gwneud yn anos i Frank a Mary i gael gwared ar Nick neu Alex fel cyfarwyddwyr.

2. Cynigion amgen ar gyfer strwythuro'r buddsoddiad

i) Dyled ac ecwiti dewisol

Gallai Frank a Mary fuddsoddi drwy fenthyciad yn ogystal â chymryd blaendaliadau. Gallai telerau'r benthyciad gynnwys cyfradd llog sy'n uwch na'r hyn a gynnigir gan fanc, a gallai hefyd gynnwys y dyddiadau pan fyddai cyfalaf yn cael ei ad-dalu, ac y gellid ei ymestyn. Y fantais i Frank a Mary yw y gallent gael taliad llog o'r dechrau yn hytrach nag aros nes byddai difidend yn cael ei dalu. Serch hynny, os na fyddai Frank a Mary wedi cymryd unrhyw gyfranddaliadau cyffredin, ni fyddent yn elwa ar y cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau hynny os byddai'r cwmni'n llwyddiannus. Hefyd, ni fyddai ganddynt ddim o'r hawliau, gan gynnwys hawliau pleidleisio, sy'n dod gyda chyfranddaliadau cyffredin, ac felly efallai y byddent yn teimlo nad oedd ganddynt lais a oedd yn adlewyrchu eu buddsoddiad.

Mantais y benthyciad o safbwynt Nick ac Alex yw y gallent ddal holl gyfranddaliadau cyffredin y cwmni a hefyd ni fyddent yn talu'r difidend ar y blaendaliadau tan y byddai'r cwmni'n gwneud elw. Maen nhw wedi dweud eu bod am gadw cysylltiadau allanol cyn lleied â phosibl cyfyngu cysylltiadau allanol i'r radd leiaf posib ac y byddai cymryd benthyciad yn golygu y gallent ad-dalu rhan o'r buddsoddiad. Un anfantais yw y gallai Frank a Mary fod eisiau rhyw fath o sicrwydd ar gyfer y benthyciad. Hefyd, ni fyddai Nick ac Alex yn debygol o gael taliadau difidend am gryn amser.

ii) Dyled ac ecwiti cymysg

Gellid negodi cymysgedd fel y byddai Frank a Mary yn cymryd rhai cyfranddaliadau cyffredin a rhai blaendaliadau a hefyd yn rhoi benthyciad. Efallai mai dyma fyddai'r opsiwn gorau a mwyaf hyblyg, a gallai roi mwy o reolaeth i Nick ac Alex na fyddai ganddynt o dan y cynnig presennol. Pe gallai Nick ac Alex negodi bod gan Frank a Mary lai na 25% o'r cyfranddaliadau cyffredin rhyngddynt, yna byddai hyn yn dadwneud gallu Frank a Mary i rwystro penderfyniadau arbennig. Fodd bynnag, efallai na fydd hwn yn nod realistig: mae'n bwysig cofio bod Frank a Mary yn ymgymryd â risg sylweddol o ran maint y buddsoddiad maen nhw'n ei gynnig i'r fenter newydd hon. Gan eu bod wedi datgan yn glir nad ydynt yn dymuno bod yn gysylltiedig â'r gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd, mae'n debygol y byddant yn mynnu cael rhywfaint o reolaeth fel cyfranddalwyr. Byddai hefyd yn rhesymol i ddisgwyl y bydd Frank a Mary am i werth eu buddsoddiad adlewyrchu llwyddiant y cwmni ac felly efallai y byddant yn amharod i leihau eu daliad o gyfranddaliadau cyffredin i'r graddau hyn.

SAMPL B (gweler y nodyn ar atebion enghreifftiol ar dudalen 10)

O dan y cynnig presennol, byddai gan Frank a Mary fwyafrif sylweddol yn y cwmni, a fyddai'n ddigon i gael gwared ar gyfarwyddwyr. Ni fyddem yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn oni bai bod Nick ac Alex yn ymddiried yn llwyr yn y ddau ohonynt.

Un ffordd o liniaru hyn fyddai trafod a chytuno cytundeb cyfranddalwyr a fyddai'n rhagori ar erthyglau cymdeithasu ac a allai gynnwys cymal sy'n atal cael gwared ar Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr ac sy'n atal unrhywbeth rhy ymwithiol rhag cael eu gwneud i'r cwmni (newid enw, trosglwyddo IP) heb gydsyniad unfrydol yr holl gyfranddalwyr. Byddai hyn yn galluogi'r cwmni i elwa ar brofiad Frank mewn busnes heb gymryd rheolaeth oddi wrth Nick ac Alex. Pa bynnag fodel a ddewisir, byddai'n ddoeth i gael cytundeb cyfranddalwyr gan y byddai hynny'n cadarnhau hawliau pob parti.

Gallent hefyd gynnwys tymor penodol hir yng nghontractau gwasanaeth Nick ac Alex. Er y byddai angen cymeradwyaeth cyfranddalwyr i wneud hyn, byddai'n ei gwneud yn llai tebygol y ceid gwared arnynt oherwydd y gost y byddai hynny'n ei olygu i'r Cwmni.

Strwythurau Amgen

A. Cyfalaf Dyled

Un opsiwn posibl yw cyfnewid y buddsoddiad ecwiti a awgrymwyd ar gyfer cyfalaf dyled. Yn hytrach na buddsoddi'r arian a bod yn gyfranddalwyr byddai Frank a Mary yn dod yn gredydwyr. Mae hyn yn golygu'r bonws ychwanegol i Nick ac Alex na fyddai gan Frank a Mary unrhyw lais yng ngweithrediad y cwmni cyhyd â'i fod yn solfent ac yn ad-dalu'r benthyciad. Y fantais i Frank a Mary yw'r diffyg risg. Mewn achos o ansolfedd, mae'r credydwyr mewn sefyllfa well o lawer na chyfranddalwyr i adennill eu harian. Yr anfantais (a allai olygu y byddai hyn yn cael ei wrthod) yw na fyddai Frank a Mary, ar wahân i'r llog, yn gweld llawer o elw ar fuddsoddiad. Hyd yn oed os bydd y cwmni'n gwneud yn dda iawn, ni fyddent yn gweld eu taliadau'n cynyddu ac mi allant wrthod y cynnig oherwydd hynny.

B. Cyfalaf Cymysg

Er mwyn lliniaru anfanteision y cynnig uchod, gallem gyflwyno cynllun cyfalaf cymysg. Byddai Mary a Frank yn dal i gael blaendaliadau ond byddem yn lleihau eu cyfranddaliadau cyffredin i 7000 o £1 yr un ac yn rhoi benthyciad o'r gweddill. Fel hyn, nid fyddai ganddynt gyfran fwyafrifol yn y cwmni ond byddant yn dal i gael y bonws o dderbyn daliad difidend pan fydd y cwmni'n gwneud yn dda ac os yw'r cwmni'n methu byddai ganddynt y sicrwydd hefyd o fod yn gredydwyr. Y fantais yw: Byddai Nick ac Alex yn cadw rheolaeth dros y cwmni. Yr anfantais i Nick ac Alex yw y byddai Frank a Mary yn awr yn cael difidend dewisol ynghyd â thaliadau dyled a allai fod yn gostus.